Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI (CYMRU)

## Bwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn

Rhagfyr 2016

**BIL TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI (CYMRU)**

**BWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH**

1. Mae'r datganiadau hyn yn nodi'r bwriad polisi presennol ar gyfer is-ddeddfwriaeth Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

2. Mae'r is-ddeddfwriaeth, sydd â bwriadau polisi datganedig i ragnodi materion yn ymwneud â manylion gweithdrefnol a darparu hyblygrwydd mewn perthynas â materion lle gellid bod angen gwneud addasiadau i hwyluso'r gwaith o gyflawni a gweithredu yn effeithiol, yn ymwneud â:

   i. Cyfraddau treth (a. 14(3), 14(6) a 45(4);
   ii. Deunydd cymwys (a.15);
   iii. Cymysgedd cymwys o ddeunyddiau: gronynnau mân (prawf colled wrth danio) (a.17(1));
   iv. Credydau treth (a.53(1)); a
   v. Throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol (a.86).

3. Mae'n bosibl y bydd angen ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth hon. Bydd hefyd yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad. O ganlyniad, gallai bwriadau'r polisi newid.

4. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y pwerau eraill i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil hwn yn hanfodol er mwyn:

   i. gwneud newidiadau yn ôl amgylchiadau, polisïau neu newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol,
   ii. ymateb i arloesi a newidiadau i'r ffordd y mae safleoedd tirlenwi'n gweithredu neu ddatblygiadau technolegol; a
   iii. galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau mewn cyfraddau treth dirlenwi, yn enwedig y cyfraddau yn Lloegr, i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar fusnesau yng Nghymru.

5. Diben y datganiadau hyn yw cynorthwyo'r Pwyllgor cyfrifol yn ystod y broses o graffu ar y Bil.

6. Mae manylion yr holl bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer pob un o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth wedi eu hamlinellu ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol.

| Adran | Disgrifiad | Bwriad y polisi |
|---|---|---|
| **RHAN 2: Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY** | | |
| Adran 4(3) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu ystyr gwaredu deunydd drwy dirlenwi. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 6(4) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu ystyr gwaredu deunydd fel gwastraff. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 8(5) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu bod gweithgarwch safle tirlenwi i fod yn weithgarwch safle tirlenwi penodedig ac, felly, y dylid ei drin fel gwarediad trethadwy. Cânt wneud hynny mewn perthynas â safle awdurdodedig neu fan arall. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd addasu neu ddileu gweithgarwch safle tirlenwi penodedig. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| **RHAN 3: GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG** | | |
| Adran 12(1) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, greu esemptiadau newydd rhag y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) neu addasu neu ddileu esemptiad sy'n bodoli eisoes. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu y bydd esemptiad yn gymwys dim ond pan fo amodau penodol yn cael eu bodloni. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 14(3) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod y gyfradd dreth safonol ac mae adran 14(7) yn darparu y caiff y rheoliadau hyn osod gwahanol gyfraddau treth safonol ar gyfer gwahanol | Mae adran 14(2) yn pennu sut y bydd swm y dreth sydd i'w godi ar warediad deunydd trethadwy mewn safle tirlenwi awdurdodedig yn cael ei gyfrifo; sef drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli â'r gyfradd |

| | | |
|---|---|---|
| | ddisgrifiadau o ddeunydd. | safonol.<br><br>Mae'r gallu i bennu'r cyfraddau treth yn nodwedd annatod o'r system dreth. Mae'r pŵer yn galluogi gweinidogion Cymru i bennu'r gyfradd safonol sy'n gymwys i LDT.<br><br>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau mewn cyfraddau treth dirlenwi, yn enwedig y cyfraddau yn Lloegr, i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar fusnesau yng Nghymru a rhoi sicrwydd a hyder i'r busnesau hynny. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddiogelu arian cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â gweithredu newidiadau polisi ehangach.<br><br>Mae is-adran (7) yn nodi y caiff rheoliadau o dan y pŵer hwn bennu gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o ddeunydd. Mae hyn fel bod modd i unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff gwastraff ei ddosbarthu, unrhyw waith arloesi neu ddatblygiadau technolegol yn y diwydiant gwastraff neu newidiadau polisi gael eu hadlewyrchu yn y gyfradd os bernir bod hynny'n briodol.<br><br>Darperir ar gyfer pŵer tebyg ym adran 13(2) Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014; heblaw nad yw'r adran honno'n caniatáu ar gyfer gosod gwahanol gyfraddau safonol ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o ddeunydd. |
| Adran 14(6) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod y gyfradd dreth is ac mae is-adran 14(7) yn darparu y | Mae adran 14(5) yn nodi sut y caiff swm y dreth sydd i’w godi ar warediad trethadwy neu gymysgedd cymwys o |

| | | |
|---|---|---|
| | caiff y rheoliadau hyn osod gwahanol gyfraddau treth is ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o ddeunydd. | ddeunyddiau mewn safle tirlenwi awdurdodedig ei gyfrifo; sef drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli â'r gyfradd is.<br><br>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r gyfradd dreth is at ddibenion LDT.<br><br>Mae'r gallu i bennu'r cyfraddau treth yn nodwedd annatod o'r system dreth. Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod y gyfradd dreth is gychwynnol ar gyfer LDT ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru amrywio cyfraddau'r dreth yn y dyfodol.<br><br>Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau mewn cyfraddau treth dirlenwi, yn enwedig y cyfraddau yn Lloegr, i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar fusnesau yng Nghymru a rhoi sicrwydd a hyder i'r busnesau hynny. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddiogelu arian cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â gweithredu newidiadau polisi ehangach.<br><br>Mae is-adran (7) yn nodi y caiff rheoliadau o dan y pŵer hwn bennu gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o ddeunydd. Mae hyn fel bod modd i unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff gwastraff ei ddosbarthu, unrhyw waith arloesi neu ddatblygiadau technolegol yn y diwydiant gwastraff neu newidiadau polisi gael eu hadlewyrchu yn y gyfradd os bernir bod hynny'n briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 13(5) o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014 ac mae adran 13(6) yn darparu y ceir gosod gwahanol gyfraddau is ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o ddeunydd. |
| Y weithdrefn ar gyfer adrannau 14(3) a 14(6) | Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer, drwy reoliadau, i osod y cyfraddau treth sy'n gymwys i warediad trethadwy. | Mae'n rhaid i'r set gyntaf o reoliadau sy'n pennu'r cyfraddau treth gael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad a'u pasio ganddo cyn y gallant ddod i rym - gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.<br><br>Byddai rheoliadau dilynol i amrywio cyfraddau treth yn destun y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol dros dro. Mae hyn yn galluogi i unrhyw amrywiad i'r cyfraddau treth ddod i rym ar y dyddiad y caiff y rheoliadau eu gwneud (eu llofnodi) a'u cyflwyno. Mae'n rhaid i'r rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad cyn pen 28 diwrnod ar ôl eu cyflwyno os ydynt i barhau i gael effaith (gan ddiystyru unrhyw gyfnod pan fo'r Cynulliad ar doriad o fwy na 4 diwrnod neu wedi'i ddiddymu).<br><br>Mantais y weithdrefn gadarnhaol dros dro yw ei bod yn sicrhau y gall unrhyw amrywiad gael effaith ar fyr rybudd, gan gadw swyddogaeth allweddol y Cynulliad i gymeradwyo'r amrywiad cyn iddo gael effaith gyfreithiol barhaol.<br><br>Os na fydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r amrywiad o fewn y cyfnod a ragnodir yn y Bil (28 diwrnod, ac eithrio unrhyw gyfnod pan fo'r Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad o fwy na 4 diwrnod), bydd yr amrywiad yn peidio â chael effaith. Bydd trethdalwyr sydd wedi talu rhagor o |

| | | |
|---|---|---|
| | | dreth o ganlyniad i'r rheoliadau (a fethodd) yn gallu gwneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru am ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfradd.<br><br>Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei ddefnyddio i osod ac amrywio cyfraddau treth yn yr Alban. O fabwysiadau'r dull hwn o osod ac amrywio cyfraddau LDT, bydd modd gwneud newidiadau yn gyflym a sicrhau ar yr un pryd fod y Cynulliad yn rhoi cymeradwyaeth derfynol i unrhyw amrywiad cyn iddo gael effaith barhaol.<br><br>Mae hyn yn wahanol i gyfraddau trethi'r DU. Yn gyffredinol, caiff y rhain eu hamrywio gan ddefnyddio cyfres o gynigion y rhoddir effaith gyfreithiol barhaol iddynt gan Ddeddf Seneddol (fel arfer y Ddeddf Cyllid flynyddol). Nid oes gennym ni weithdrefn gyfatebol, sy'n golygu bod rhaid gosod cyfraddau LDT drwy reoliadau. |
| Adran 15 | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, restru deunyddiau cymwys ynghyd ag unrhyw amodau y mae'n rhaid eu bodloni, naill ai mewn perthynas â deunydd cymwys yn gyffredinol neu mewn perthynas â deunydd cymwys o ddisgrifiad penodol. | Mae hyn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu rhestr o ddeunyddiau cymwys (ac amodau) at ddiben Gofyniad 1 yn adran 15.<br><br>I fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is, mae angen bodloni gofyniad 1 a gofyniad 2. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau cysondeb â gweddill y DU o ran deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is.<br><br>Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 42(3) o Ddeddf Cyllid 1996 ac adran 13(4) o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014. Mae'r rhestr sylfaenol o ddeunyddiau cymwys ac amodau y mae'n rhaid iddynt eu bodloni |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi'i gosod yng Ngorchymyn y Dreth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011 a Gorchymyn Treth Dirlenwi yr Alban (Deunydd Cymwys) 2016. |
| Adran 16(1) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi unrhyw ddeunyddiau na ddylid eu cynnwys mewn cymysgedd cymwys o ddeunyddiau. | Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi unrhyw ddeunyddiau na ddylid eu cynnwys mewn cymysgedd cymwys o ddeunyddiau, sy'n golygu na fyddai deunydd o'r fath yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is.<br><br>Diben hyn yw caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried, oherwydd yr effaith amgylcheddol neu amgylchiadau eraill, a oes deunydd penodol na ddylai fod yn bresennol ar unrhyw adeg mewn cymysgedd sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd is, ni waeth pa mor fychan yw'r swm ohono sy'n bresennol.<br>Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud addasiadau yn ôl amgylchiadau, polisïau, arloesi, newidiadau i'r ffordd y mae safleoedd tirlenwi'n gweithredu neu ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol.<br><br>Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 13 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014. |

| | | |
|---|---|---|
| Adran 16(3) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu canran (yn ôl pwysau neu gyfaint y deunydd, neu'r ddau) fel terfyn at ddibenion gofyniad 1 yn adran 16(1) sy'n dynodi'r hyn a olygir gan swm bychan o ddeunydd anghymwys mewn cymysgedd cymwys o ddeunyddiau. | Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r ganran o ddeunydd sy'n bodloni'r gofyniad ar gyfer swm bychan o ddeunydd anghymwys mewn cymysgedd cymwys o ddeunyddiau fel na fyddai'r gyfradd is yn gymwys pe byddai'r swm yn fwy na'r ganran honno.<br><br>Diben y ddarpariaeth hon yw caniatáu i Weinidogion Cymru bennu canran i ddiffinio swm bychan os yw profiad Awdurdod Cyllid Cymru o weithredu yn awgrymu bod peidio â diffinio swm bychan yn peri risg i'r refeniw.<br><br>Ein bwriad yw cadw'r darpariaethau fel y maent wedi'u drafftio ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, pe byddai angen gwneud newidiadau yn unol ag amgylchiadau neu bolisïau yn y dyfodol, byddai'r rheoliadau hyn yn caniatáu inni wneud hynny. |
| Adran 16(4) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu, addasu neu ddileu gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gymysgedd fod yn gymysgedd cymwys o ddeunyddiau y gellir cymhwyso'r gyfradd dreth is iddo. Yn ogystal, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch materion y mae'n rhaid neu y caniateir eu hystyried wrth benderfynu a yw gofyniad wedi'i fodloni ai peidio, neu addasu neu ddileu darpariaeth bresennol ynghylch y materion hynny. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 17(1) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod gofynion pellach y mae'n rhaid eu bodloni os yw cymysgedd o ddeunyddiau yn gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân, er mwyn i'r cymysgedd hwnnw gael | Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion pellach y mae'n rhaid eu bodloni os yw cymysgedd o ddeunyddiau yn gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân. Mae hynny'n golygu na fyddai |

| | | |
|---|---|---|
| | ei drin fel cymysgedd cymwys o ddeunyddiau a bod yn gymwys ar gyfer cyfradd is LDT. | cymysgedd o'r fath yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is pe na fyddai'n bodloni'r gofynion hyn.<br><br>Diben y pŵer hwn i wneud rheoliadau yw darparu i Weinidogion Cymru offeryn sydd â'r nod o atal camddosbarthu gwastraff gronynnau mân o waith trin gwastraff mecanyddol. Er enghraifft, gronynnau mân a gynhyrchwyd drwy brosesau gwahanu, trefnu a sgrinio (h.y. y darnau bach o wastraff sydd ar ôl wedi i wastraff gael ei brosesu).<br><br>Bwriad y polisi yw trin gwarediad cymysgedd o ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân fel cymysgedd cymwys o ddeunyddiau (ac, felly, gwarediad sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd is), ar yr amod bod y gofynion a nodir yn adran 16 ac unrhyw ofynion pellach, penodol i ronynnau mân, sydd wedi eu gosod mewn rheoliadau, wedi'u bodloni.<br><br>Y bwriad o ran y polisi yw defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau i gyflwyno prawf colled wrth danio ar gyfer gronynnau mân yng Nghymru, mewn modd tebyg i'r cyfundrefnau profi colled wrth danio sydd ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas â threth dirlenwi y DU a'r Alban. Mewn prawf colled wrth danio, bydd sampl o'r gronynnau mân yn cael ei phrofi o dan amodau labordy er mwyn canfod elfen bioddiraddadwy a/neu losgadwy y gwastraff, sy'n rhoi syniad o botensial y deunydd i achosi llygredd. Yna, gellir cysylltu canlyniad prawf colled wrth danio â'r gofynion y mae'n rhaid i gymysgedd o ronynnau mân eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is. |

| | | |
|---|---|---|
| Adran 21(9) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio neu ddiddymu'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â rhoi disgownt mewn cysylltiad â'r dŵr sydd mewn deunydd. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 32(1) | Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer, drwy reoliadau, i greu rhyddhad ychwanegol rhag treth, neu addasu neu ddileu rhyddhad rhag treth sy'n bodoli eisoes. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 40(9) | Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 2 i'r Bil drwy reoliadau. Mae Atodlen 2 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ar anfoneb dirlenwi a gyflwynir yn unol ag adran 40 o'r Bil. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| **RHAN 4 - GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR MEWN LLEOEDD HEBLAW SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDOEDIG** | | |
| Adran 45(4) | Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer, drwy reoliadau, i osod y gyfradd dreth ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi y gellir ei chymhwyso i warediad trethadwy a wneir mewn man nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig, a gosod gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o ddeunyddiau. | Mae adran 45(2) yn nodi sut i gyfrifo swm y dreth sydd i'w godi ar warediad deunydd trethadwy a wneir mewn man nad yw'n safle tirlenwi; sef trwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli â'r gyfradd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.<br><br>Mae'r gallu i bennu'r cyfraddau treth yn nodwedd annatod o'r system dreth. Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r gyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi sy'n gymwys i LDT.<br><br>Nid oes darpariaethau cyfatebol i'r rhai hyn yn neddfwriaeth y DU na deddfwriaeth yr Alban.<br><br>Mae'n rhaid i'r set gyntaf o reoliadau sy'n pennu'r cyfraddau treth gael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad a'u pasio ganddo cyn y gallant ddod i rym - gan ddefnyddio'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.<br><br>Byddai rheoliadau dilynol i amrywio cyfraddau treth yn destun y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol dros dro. Mae hyn yn galluogi i unrhyw amrywiad i'r cyfraddau treth ddod i rym ar y dyddiad y caiff y rheoliadau eu gwneud (eu llofnodi) a'u cyflwyno.  Mae'n rhaid i'r rheoliadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad cyn pen 28 diwrnod ar ôl eu cyflwyno os ydynt i barhau i gael effaith (gan ddiystyru unrhyw gyfnod pan fo'r Cynulliad ar doriad o fwy na 4 diwrnod neu wedi'i ddiddymu).<br><br>Mantais y weithdrefn gadarnhaol dros dro yw ei bod yn sicrhau y gall unrhyw amrywiad gael effaith ar fyr rybudd, gan gadw swyddogaeth allweddol y Cynulliad i gymeradwyo'r amrywiad cyn iddo gael effaith gyfreithiol barhaol.<br><br>Os na fydd y Cynulliad yn cymeradwyo'r amrywiad o fewn y cyfnod a ragnodir yn y Bil (28 diwrnod, ac eithrio unrhyw gyfnod pan fo'r Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad o fwy na 4 diwrnod), bydd yr amrywiad yn peidio â chael effaith. Bydd trethdalwyr sydd wedi talu rhagor o dreth o ganlyniad i'r rheoliadau (a fethodd) yn gallu gwneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru am ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfradd.<br><br>Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei ddefnyddio i osod ac amrywio cyfraddau treth yn yr Alban. O fabwysiadau'r dull hwn o osod ac amrywio cyfraddau LDT, bydd modd |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwneud newidiadau yn gyflym a sicrhau ar yr un pryd fod y Cynulliad yn rhoi cymeradwyaeth derfynol i unrhyw amrywiad cyn iddo gael effaith barhaol.<br><br>Mae hyn yn wahanol i gyfraddau trethi'r DU. Yn gyffredinol, caiff y rhain eu hamrywio gan ddefnyddio cyfres o gynigion y rhoddir effaith gyfreithiol barhaol iddynt gan Ddeddf Seneddol (fel arfer y Ddeddf Cyllid flynyddol). Nid oes gennym ni weithdrefn gyfatebol, sy'n golygu bod rhaid gosod cyfraddau LDT drwy reoliadau. |
| Adran 46(3) | Caiff Gwenidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r amgylchiadau pan fo person i'w drin fel pe bai'n bodloni (neu heb fod yn bodloni) yr amod ar gyfer codi treth, a materion i'w hystyried wrth benderfynu a yw person yn bodloni (neu heb fod yn bodloni) yr amod hwnnw. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 51(1) | Caiff Gwenidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi hysbysiadau rhagarweiniol a hysbysiadau codi treth; talu swm o dreth a godir gan hysbysiad codi treth; unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chodi swm o dreth neu dalu swm o dreth o dan yr adran hon, neu'n deillio â hynny. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| **RHAN 5 - DARPARIAETH ATODOL** | | |
| Adran 53(1) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan fydd gan berson yr hawl i gredyd treth mewn cysylltiad ag LDT ac, ymysg pethau eraill, cânt  bennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni a'r weithdrefn ar gyfer ei hawlio. | Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r amgylchiadau pan fydd gan berson hawl i gredyd treth.<br><br>Bydd y rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i |

| | | |
|---|---|---|
| | | greu credyd treth a phennu pwy fydd yn gymwys i hawlio credyd, sut y dylent hawlio'r credyd a'r amodau y mae'n rhaid iddynt eu bodloni er mwyn hawlio'r credyd. Cânt hefyd nodi'r cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i ategu hawliad a rhoi'r pŵer i Awdurdod Cyllid Cymru wrthod credyd os nad yw'n fodlon bod yr amodau perthnasol, gan gynnwys cadw cofnodion, wedi'u diwallu.<br><br>Y bwriad yw y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i greu credyd ar gyfer ansolfedd cwsmeriaid (a elwir yn gredyd dyled ddrwg ar hyn o bryd o dan LfT), y gellir ei hawlio mewn amgylchiadau pan fo gweithredwr safle tirlenwi wedi rhoi cyfrif am LDT ac wedi'i thalu mewn perthynas â gwarediad, ond nad yw wedi cael taliad gan y cwsmer a wnaeth y gwarediad oherwydd digwyddiad ansolfedd. Byddai'r rheoliadau'n cynnig rhagor o fanylion ynghylch pa bryd y byddai gan rywun hawl a pha amodau a gofynion y byddai'n rhaid eu bodloni er mwyn hawlio'r credyd.<br><br>Ceir pwerau tebyg yn adrannau 51-53 o Ddeddf Cyllid 1996 ac adrannau 18-20 o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014. |
| Adran 54(10) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynglŷn â chynnwys hysbysiad (a gyhoeddir o dan adran 54(1)) sy'n dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 55(7) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynglŷn â'r amgylchiadau pan na fo dyletswydd | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithredwr o dan adran 55(1) (i sicrhau bod deunydd yn cael ei drin yn unol â'r hysbysiad dynodi) yn gymwys. | ofynnol. |
| Adran 59(5) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu, addasu neu ddileu personau neu ddisgrifiadau o bersonau o'r rhestr o'r rhai sy'n cael datgelu gwybodaeth i Awdurdod Cyllid Cymru i'w gynorthwyo i gasglu a rheoli LDT. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 67(4) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio neu ddiddymu 67(2) fel bo cosb ar wahân o dan adran 67(1) yn gymwys i bob achos unigol o fethu cydymffurfio â gofynion o dan adran 55 neu 56, hyd yn oed os ydynt yn deillio o'r un weithred neu anwaith. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 72(1) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch y weithdrefn ar gyfer asesu cosbau a symiau cosbau o dan Bennod 4 o Ran 5. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 80 | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu at ddarpariaethau sy'n ymwneud ag LDT ynglŷn â dynodi grwpiau o gyrff corfforaethol, eu diddymu neu eu diwygio fel arall. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) ynglŷn â'r cyrff corfforaethol y caniateir eu dynodi'n aelodau o grŵp ac ynglŷn ag effeithiau dynodi. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 83 | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu at ddarpariaethau sy'n ymwneud ag LDT ynglŷn ag achosion pan fo personau'n rhedeg busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig, eu diddymu neu eu diwygio fel arall. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |

| | | |
|---|---|---|
| Adran 85 | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ychwanegu at ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r dreth ynglŷn ag achosion pan fo person sydd wedi rhedeg busnes tirlenwi yn marw, yn mynd yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, eu diddymu neu eu diwygio fel arall. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) ynglŷn a'r amgylchiadau pan fo person yn mynd yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, neu'n peidio â bod yn analluog neu'n destun gweithdrefn ansolfedd; ac ynglŷn â dyletswyddau, rhwymedigaethau a hawliau sy'n ymwneud â'r dreth pan fo person wedi marw, wedi mynd yn analluog neu wedi dod yn destun gweithdrefn ansolfedd. Caniateir gwneud darpariaeth sy'n gymwys pa un a yw unrhyw un arall yn rhedeg busnes tirlenwi person ar ôl i'r person farw ai peidio. | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| Adran 86 | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i sicrhau dilyniant wrth gymhwyso unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud ag LDT pan drosglwyddir busnes tirlenwi o un person i un arall fel busnes gweithredol. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) ynghylch gofynion hysbysu, rhwymedigaeth neu hawlogaeth sy'n ymwneud â'r dreth; unrhyw beth a wnaed cyn y trosglwyddiad mewn perthynas â'r dreth a chadw cofnodion. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth mewn perthynas â chosbau, adolygiadau ac apelau. | Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn i wneud darpariaeth i sicrhau dilyniant wrth gymhwyso LDT i achosion pan fo busnes tirlenwi wedi trosglwyddo o un person i un arall. Y bwriad yw i'r rheoliadau ragnodi'r weithdrefn hysbysu a fydd yn gymwys i drosglwyddiadau o'r fath, yn ogystal â'r hawlogaethau a rhwymedigaethau a fydd yn cael eu trosglwyddo.<br><br>Darperir ar gyfer pŵer tebyg yn adran 58(5) o Ddeddf Cyllid 1996 ac adran 37(5) o Ddeddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014. |

| | | |
|---|---|---|
| Adran 88 (1) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i reolwr safle tirlenwi awdurdodedig dalu treth, ac mewn cysylltiad â hynny. Caiff y rheoliadau (ymysg pethau eraill) wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau gweithdrefnol a nodir yn adran 88(3). | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau yn y dyfodol, ac ar hyn o bryd ni ellir rhagfynegi gyda sicrwydd y newidiadau a fydd yn ofynnol. |
| **RHAN 6: DARPARIAETHAU TERFYNOL** | | |
| Adran 90(1) | Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau o dan y ddeddf hon, wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed y maent o'r farn ei bod yn briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a wneir yn y Bil hwn neu oddi tano, mewn cysylltiad â darpariaeth o’r fath, neu er mwyn rhoi effaith lawn iddi. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, ddirymu neu ddiddymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys yn y Bil hwn neu a wneir oddi tano). | Byddai'r pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer materion fel gwneud newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn neu reoliadau a wneir oddi tano, neu i ymdrin â manylion na ragwelwyd sy'n codi wrth roi'r system newydd ar waith.<br><br>Lluniwyd elfennau trosiannol, arbed a chanlyniadol i fynd i'r afael â'r broses o symud o un drefn treth trafodiadau tirlenwi i un arall, fel bod y broses mor llyfn â phosib a bod y gyfraith newydd yn gweithredu yn unol â'r bwriad. |
| Adran 94(2) | Ac eithrio Rhan 1 (trosolwg) a Rhan 6 (darpariaethau terfynol) a ddaw i rym ar y diwrnod y mae'r Bil hwn yn cael Cydsyniad Brenhinol, caiff Gweinidogion Cymru bennu'r dyddiad y daw darpariaethau yn y Bil hwn i rym drwy orchymyn a wneir o dan offeryn statudol. | Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r diwrnodau y daw'r darpariaethau yn y Bil i rym. Y bwriad yw i'r holl ddarpariaethau (heblaw'r rhai yn Rhannau 1 a 6) ddod i rym cyn 1 Ebrill 2018. |